

## DYFRIG, neu DUBRICIUS (fl. 475?), sant Cymreig cynnar

**Enw:** Dyfrig

**Rhiant:** Ebrdil ferch Pebiau Claforawg

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** sant Cymreig cynnar

**Maes gweithgaredd:** Crefydd

**Awdur:** Hywel David Emanuel

a gysylltir gan amlaf â de-ddwyrain Cymru, ac yn arbennig â gorllewin a de sir fodern Henffordd. Yn ôl y 'Vita Samsonis,' cyfansoddiad o'r 7fed ganrif a'r ffynhonnell gynharaf am fywyd Dyfrig, yr oedd gryn dipyn yn hŷn na [S. Samson](#) ac yn gyfoed neu ychydig yn hŷn na [S. Illtud](#). Yma hefyd cysylltir ef ag ynys Caldey (Ynys Bŷr) ar gyfer Dinbych-y-pysgod, Sir Benfro. Anfoddfaol, fodd bynnag, hyd yma, yw'r cais i gysylltu Dyfrig â'r person a enwir mewn arysgrif ogam amherffaith ar garreg ar ynys Caldey. O'r tair 'Buchedd' a oroesodd, dibwys yw'r ddwy ddiweddaraf a gyfansoddwyd gan [Sieffre o Fynwy](#) a Benedict o Gaerloyw. Ceir y 'Fuchedd' gynharaf yn 'Llyfr Llandaf,' yn dilyn rhestr o diroedd a drosglwyddwyd, meddir, i Landaf yn oes Dyfrig. Yn ôl y 'Fuchedd' hon, mab oedd Dyfrig i Ebrdil merch Pebiau brenin Ercych. Gwyrthiol oedd modd ei eni ym Matle (hwyrach Madley, pum milltir a hanner i'r gorllewin o Henffordd), ac yn union dangosodd ei alluoedd gwyrthiol drwy iacháu ei daid o hen glefyd. Datblygodd y bachgen yn ysgolhaig o fri a sefydlodd fynachlog 'Hennlann' (Hentland-on-Wye), lle y dysgodd ddisgyblion o bell ac agos am saith mlynedd. Galwyd ei ail sefydliad, ger man ei enedigaeth, yn 'Mochros' (yn awr Moccas); bu yno am flynyddoedd lawer. Yn olaf, wedi ei orthrymu gan afiechyd corfforol a henaint, ciliodd i fyw bywyd meudwy ar ynys Enlli, lle hefyd y claddwyd ef. Ganrifoedd ar ôl hyn, ym mis Mai 1120, cludwyd ei gorff i Landaf; hyn hwyrach a symbylodd gyfansoddi ei 'Fuchedd' na chynnwys nemor ddim ond casgliad o draddodiadau mewn bri adeg y cyfansoddi. Defnyddiwyd hyd yn oed y traddodiadau hyn i bwysleisio hynafiaeth ac uchafiaeth Llandaf. Adlais felly o bropaganda ymwybodol y 12fed ganrif ac nid ffeithiau hanesyddol y 5ed a'r 6ed ganrif yw'r gosodiad a wneir yn 'Llyfr Llandaf' mai Dyfrig oedd esgob Llandaf ac archesgob de Prydain. Cytuna'r 'Fuchedd' â'r 'Annales Cambriae' wrth nodi 612 fel blwyddyn marw Dyfrig. Fodd bynnag, y mae natur ei berthynas draddodiadol â'r saint Cymreig eraill a chysylltiad maes ei weithgarwch a'r eglwysi a gyflwynwyd iddo a'r ardal honno i'r gorllewin o Hafren y dylanwadwyd arni mor drwm gan y Rhufeiniaid yn awgrymu dyddiad o leiaf ganrif yn gynt. Nodir 14 Tachwedd yn arferol fel dydd gŷl Dyfrig.

### Awdur

Hywel David Emanuel, (1921 - 1970)

### Ffynonellau

*The Text of the Book of Llan Dâv* (Oxford 1893) (gol. J. Gwenogvryn Evans a John Rhys), 68-86

*The Lives of the British Saints*, ii, 359-82

G. H. Doble, *Saint Dubricius* (1943)

*Oxford Dictionary of National Biography*

*Y Cymmrodor*, 1888, 156

*Archaeologia Cambrensis*, 1916, 95-7

R. A. S. Macalister, *Corpus Inscriptionum Insularum Celticarum* (Dulyn 1945), i., 405

E. G. Bowen, yn *Antiquity*, 1945, 178-9

### Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Dyfrig](#)

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q1078192](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

